

Oedfa Diolchgarwch

Darlleniad: Salm 95: 1-6

Cyfarchiad:

Dyma rai o eiriau godidog y salmydd yn clodfori Duw gan ein hannog ninnau i wneud yr un fath. A dyma yw ein bwriad yn ystod yr oedfa hon – ymateb i anogaeth y salmydd, a throedio llwybrau mawl, fel ein bod yn cydaddoli'r Arglwydd yn llawen. Ac yn fwy penodol, a ninnau yn nhymor y cynhaeaf, i roi diolch i Dduw am ei haelioni a'i ddaioni tuag atom.

Gweddïwn.

"Bloeddiwch mewn gorfoledd i'r Arglwydd, yr holl ddaear. Dewch i mewn i'w byrth a diolch, ac i'w gynteddau a mawl. Diolchwch iddo, a bendithiwch ei enw."
Gweddïwn am fendith yr Ysbryd Glân, o Dad, i fyfyrion ar dy fawredd diderfyn ac ar dy gariad yn Iesu Grist. Fel y byddwn yn rhoi mawl didwyll ein calonau i ti ac yn ymgysegru o'r newydd i'th garu a'th ganlyn. Helpa ni i'th addoli mewn ysbryd a gwirionedd. Nertha ni i ddiolch i ti, nid mewn ffordd arwynebol ond o waelod ein calonau. Diolch am dy ddaioni a'th ras tuag atom. Ac wrth i ni fyfyrion arnat ti ac ar Iesu Grist, llanw ein heneidiau hyd yr ymylon gyda gorfoledd a llawenydd, fel y gallwn ddweud fod ein ffiol yn llawn ynot ti. Amen

Emyn 1

CD Susan Williams, Fel yr Eryr – trac 6 "Parod yw fy nghalon"
neu Caneuon Ffydd 4 – "Mae'r nefoedd faith uwchben...",
neu Caneuon Ffydd 76, "Mae Duw yn llond pob lle"

Rhwng Penmachno ac Ysbyty Ifan y mae Ffynnon o'r enw Ffynnon Eidda. Yn y blynyddoedd a fu yr oedd yn gyrchfan pwysig i deithwyr. Hefyd byddai hwsmyrn yn gyrru eu hanifeiliaid ar hyd y ffordd wrth fynd â nhw i'w gwerthu ym marchnadoedd gogledd ddwyrain Cymru a Lloegr. Wrth y ffynnon yr oedd cyfle i ddyn ac anifail dorri syched, ac yfed yn helaeth o'r dŵr gloyw loyw. Gwerthfawrogid y dŵr cymaint fel y gosodwyd y geiriau, "Yf a bydd ddiolchgar", wrth y ffynnon.

Y mae'r geiriau hyn yn addas wrth gyfeirio at oedfa o fawl, gan fod addoli i'r credadun fel ffynnon lle y mae'n cael cyfle i ddisychedu ei enaid a drachtio yn helaeth o ddyfroedd bywiol Duw. Ac wrth yfed y mae'n cael cynhaliu i wynebu y rhan nesaf o'r daith. "Yfwn a byddwn ddiolchgar."

Er mwyn myfyrion ar Dduw yng nghyd-destun y cynhaeaf a'r Diolchgarwch gadewch i ni droi at bennod 17 o Lyfr yr Actau, lle y cawn hanes yr Apostol Paul yn ymweld â dinas Athen. Aeth Paul ar nifer o deithiau cenhadol i gyhoeddi'r Efengyl Gristnogol. Yr oedd newydd fod yn Thesalonica a Bera, a chyrrhaeddodd Athen. Yn y ddinas hanesyddol hon byddai'n mynd i'r synagog yn gyson i drafod gyda'r Iddewon a thro arall byddai'n mynd i sgwâr y ddinas i gyhoeddi'r newyddion da am Iesu Grist. Tra yn y fan honno fe ddangosodd athronwyr, sef Epiciwriaid a'r Stoiciaid, ddiddordeb yn yr hyn oedd ganddo i'w ddweud ac fe aethant ag ef i le o'r enw'r Areopagus, i glywed mwy am yr hyn oedd ganddo i'w rannu. Man cyfarfod oedd yr Areopagus lle

y byddai arweinyddion, dinasyddion a meddylwyr yn ymgynnull i drin a thrafod materion gwleidyddol a chrefyddol. Wrth ddechrau annerch dyfynnodd Paul arysgrif a welodd ar allor arbennig sef, "I Dduw anhysbys", a defnyddiodd hyn fel man cychwyn i'w anerchiad. Dyma flas o'r hyn ddywedodd.

Darlleniad: Actau 17:22b- 28

1. Duw'r Crëwr.

Yn yr anerchiad hwn fe ddywedwyd nifer o bethau am Dduw sy'n berthnasol i'n haddoliad nawr.

Cyfeiriodd at Dduw fel Duw y Crëwr. Credai'r Groegiaid nid mewn un Duw ond mewn llawer o dduwiau. 'Roedd ganddynt dduwiau o bob lliw a llun, duwiau ar gyfer pob achlysur ac angen, ac o amgylch y ddinas yr oedd allorau wedi eu cysegru i'r duwiau hyn. Ond cyhoeddai Paul mai un Duw sydd – a dim ond un! – ac mai ef sy'n gyfrifol am greu'r bydysawd a'r byd a phopeth sydd ynddynt. Nid bod creëdig yw'r Duw hwn ond Creawdwr hollalluog heb ddechrau na diwedd. Ac Ef roddodd fodolaeth, trwy ryfedd wyrth, i'r greadigaeth i gyd. Nid yw'n dibynnu ar unrhyw beth nac unrhyw un i'w gynnal oherwydd mae Ef yn hunangynhaliol ac yn hollalluog. Creodd ddynoliaeth i fyw mewn perthynas hapus â hwy. O ganlyniad Ef yn unig sy'n haeddu ein haddoliad, ein mawl a'n teyrngarwch. Felly, fffoloneb llwyr yw addoli unrhyw beth sydd o waith llaw dynol ... fel delwau, aur neu arian.

A dyma destun diolch, ein bod yn byw mewn byd a grëwyd gan Dduw nerthol. Un o hunllefau'r oes bresennol yw'r gred mai hap a damwain yw'r rheswm ein bod yma. Barn rhai yw mai canlyniad ffliwic prosesau cemegol amheronol yw'r alaeth hon a phob galaeth arall. "Yn y dechreuad nid oedd dim ac o'r dim drwy ddamwain daeth rhywbeth i fod." Mae hyn yn dibrisio'r cwbl, ac yn ein gwneud ni fel dynoliaeth yn drueiniaid sydd yn byw bywydau diystyr a dibwrpas. Broc môr, dyna i gyd, rhwng dau lanw ym mhendraw bydysawd anhygyrch a diwerth.

Ond mae'r ffaith mai byd creëdig yw hwn, wedi ei lunio gan Dduw llawn cariad, yn rhoi gwefr a gwerth i'r cwbl. Wrth edrych ar y cyfan gwelwn ôl bysedd Duw. Cwestiwn sydd wedi ei ofyn dros y canrifoedd ydy sut yr aeth Duw ati i greu? Dywed rhai ei fod wedi creu mewn cyfnod byr a dywed eraill fod y broses wedi bod yn un hir. Ni wyddom yr ateb ar ei ben gan nad yw'r dystiolaeth yn bendant yn naill ffordd na'r llall. Ond y ffaith allweddol yw mai byd wedi ei greu gan Dduw yw hwn, a bod gogoniant Duw yn cael ei adlewyrchu yn y cread. Fel y dywed y Salmydd, "Pan edrychaf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd y lloer a'r sêr a roddaist yn eu lle, beth yw meidrolyn i ti ei gofio..... " ac eto "Y mae'r nefoedd yn adrodd gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwylo."

Fel y sylwodd W.Rhys Nicholas

Barddoniaeth – "Oedfa'r Cread"

allan o "Gweddïau a Salmau" W. Rhys Nicholas – tudalen 78

Gweddiwn

Molwn di, O! Arglwydd,
Am dy gynllun sydd uwchlaw'r cwbl,
Am dy drefn sydd yn sail i bopeth sydd,

Am dy fwriad cariadus a roddodd gychwyn i fywyd;
Diolchwn i ti!

Molwn di, O! Arglwydd, ffynhonnell popeth sydd,
Am ryfeddod y bydysawd a greaist,
Am y sêr a'r planedau,
Am ddyfnderoedd yr eangderau:
Diolchwn i ti!

Molwn di, O! Arglwydd, creawdwr nef a daear,
Am y creaduriaid a roddaist i'n byd:
Am geinder adenydd glöyn byw:
Ac am groen gwydn yr eliffant,
Am bopeth sy'n hedfan neu'n troedio, yn ymlusgo neu'n nofio.
Yn yr awyr, ar y tir ac yn y môr ;
Diolchwn i Ti !

Maddau i ni fel dynoliaeth :

Am amharchu'r hyn a greaist,
Am lygru'r hyn a wnaethost yn lân,
Am ladd yr hyn y rhoddaist fywyd iddo.
Gad inni weld o'r newydd
Mai eiddot ti yw'r ddaear a phopeth sydd.

Molwn di O! Arglwydd, creawdwr pobloedd y ddaear,
Am i ti wneud pob un ohonom ar dy ddelw dy hun
Gyda synhwyrâu a theimladau i werthfawrogi dy roddion.
Am ymennydd i feddwl, calonnau i garu,
Ac anian greadigol i fedru cyfrannu i gymdeithas:
Diolchwn i ti!
Amen

Emyn 2

Caneuon Ffydd 106, Pan dorro'r wawr
neu Caneuon Ffydd 116, Nef a daear tir a môr.

2. Duw'r Cynhaliwr

Ond yn ôl Paul nid Crëwr yn unig yw Duw, y mae hefyd yn cynnal y cwbl. Meddai am Dduw, "dydy pobl ddim yn medru rhoi unrhyw beth iddo – does dim byd sydd arno'i angen! Y Duw yma sy'n rhoi bywyd ac anadl a phopeth arall i bawb.." "Dyn ni'n byw, yn symud, ac yn bod ynddo ef."

Credai rhai o'r Groegiaid fod eu duwiau'n byw mewn cyflwr cwbl ddigyswllt â'r byd hwn. Yn wir, nid oeddent yn sicr beth oedd yn digwydd ar y ddaear ac nid oedd unrhyw beth yn hanes dynoliaeth yn effeithio nac yn mennu dim arnynt.

Ond nid felly y gwir Dduw. Y mae ef yn cynnal y greadigaeth o ddydd i ddydd, o awr i awr, o eiliad i eiliad. Ac y mae'n gwybod yn union beth sy'n digwydd i'w gread a'i greaduriaid.

Mae gan rai syniad gwahanol am Dduw mewn perthynas a'r cread. Ei fod wedi creu y cwbl ond yna wedi camu yn ôl ai adael i redeg yn fecanyddol ar ei ben ei hun. Fel tanio injan car ac yna ei adael gyda'r injan yn rhedeg.

Neu fel weindio cloc a'i adael i dician.

Ond y ffaith syfrdanol a gyflwynir yma yw bod Duw yn cynnal y cread trwy ei allu a'i nerth yn barhaol. Ac er bod y cread yn amherffaith o ganlyniad i'r cwmp y mae deddfau cemeg, ffiseg a bywydeg yn dilyn patrymau oherwydd bod Duw yn ewyllysio i hynny ddigwydd. Mae'r planedau'n troi yn eu llwybrau oherwydd bod Duw yn mynnu hynny. A phetai yn atal ei law, byddai'r byd a'r cread mawr yn syrthio i anrhefn llwyr. Nid hawl ond bendith gras yw pob anadl a gymerwn, pob cam a gerddwn, pob dydd o iechyd, a phob pryd o fwyd. Oherwydd ynddo Ef yr ydym yn symud yn byw ac yn bod. Adeg y cynhaeaf dathlwn hyn yn arbennig wrth gofio ein bod yn derbyn ffrwythau'r ddaear gan y Cynhaliwr mawr ei hun.

Credwn ambell dro fod Duw wedi creu'r byd hwn yn unig ar ein cyfer ni ac er ein budd ni. Ond fe greodd Duw y byd er ei fwyn ei hun fel ei fod yn dwyn gogoniant iddo ef. Fel y dywedir yn Rhufeiniaid, "Duw sydd wedi rhoi popeth i ni! Fe sy'n cynnal y cwbl, ac mae'r cwbl yn bodoli er ei fwyn e!" Byd Duw yw hwn nid ein heiddo ni ac y mae wedi ein gosod fel stiwardiaid i ofalu amdano a'i feithrin a'i ddofi. Sarhad mawr yn erbyn Duw yw ein bod fel dynoliaeth yn ein trachwant yn llygru, dinistrio a gwastraffu adnoddau'r blaned hon.

Ond cofiwn hefyd mai creadigaeth amherffaith ydyw hon – oherwydd cwmp y ddynoliaeth – ac o ganlyniad gwelwn ddamweiniau a thrychinebau naturiol.

Gwyddom ddigon yn ddiweddar am Tswamiau, corwyntoedd a daeargrynfeydd sy'n adlewyrchu cyflwr syrthiedig y byd.

Gweddïwn:

Molwn di O! Arglwydd, cynhaliwr popeth byw,
Am gynnal y cread a'th nerthoedd dwyfol,
Am beri bod deddfau ffiseg a chemeg yn dilyn patrymau,
a'r planedau'n dilyn eu llwybrau,
Am gyfoeth dy gynhaeaf eleni eto,
Am gnwd y ddaear, am ffrwythau'r llwyni a'r coed,
Am silffoedd llawn y siopau ac am fara ar ein bwrdd;

Diolchwn i ti!

Amen

Rhoi

Y ffordd orau i ddiolch am fendithion y Cynhaliwr yw trwy fod yn barod i'w rhannu gydag eraill. Yn llyfr Lefiticus gorchymynnir cenedl Israel i fod yn ystyrlon o'r tlodion wrth gynaeafu cnydau. "Pan fyddi'n medi cynhaeaf dy dir, paid â medi at ymylon dy faes, a phaid â lloffa dy gynhaeaf, gad hwy i'r tlawd a'r estron." (Lef 23:22) Wrth ddathlu'r cynhaeaf y mae'n addas ein bod yn rhoi i'r anghenus o'r hyn y mae Duw wedi eu hymddiried i ni. Boed hynny ar ffurf arian, amser, nwyddau neu ddillad.

Ydych chi wedi bod mewn sŵ erioed ac wedi bod yn gwylio'r mwncïod yn mynd trwy'i pethau? Ac ydych chi wedi meddwl sut mae nhw'n dal y mwncïod? Darllenais yn ddiweddar am hen ddull o ddal mwncïod a ddefnyddid yn Ne Affrica. Hoff fwyd mwncïod yn yr ardal honno yw hadau pwmpen. Pan welant yr hadau hyn credant fod yn Nadolig, eu pen-blwydd a gwyliau'r haf wedi dod ar yr un pryd. Yr hyn a wnâi pobl er mwyn eu dal oedd gwneud twll mewn pwmpen, dim ond digon mawr i law mwnci. Yna byddent yn gadael y bwmpen allan dros nos. Yn ystod yr oriau mân byddai mwnci'n dod heibio ac yn rhoi ei law yn y twll er mwyn cael hadau. Ond wedi cydio yn yr hadau nid oeddent yn gallu tynnu eu llaw allan o'r bwmpen. Ac yn waeth na hynny nid oeddent yn fodlon gollwng yr hadau er mwyn dianc. Gallai pobl fynd atynt a'u dal. Roeddent mor farus fel bod eu trachwant yn eu caethiwo. Gall hyn ddigwydd i ninnau hefyd. Awn i feddwl fod materoldeb a chasglu celc mawr o arian, cyfoeth ac eiddo yn mynd i'n gwneud yn hapus a dedwydd. Ond y gwrthwyneb sy'n wir, fe'n gwnânt yn gaeth. Ceisiwn fwy a mwy i ni ein hunain gan rannu llai a llai gydag eraill, ac y mae hyn yn ein gwneud yn hunanol a diflas. Cyngor hyfryd ac ymarferol y Beibl yw mai "dedwyddach yw rhoi na derbyn".

Gweddiwn.

Maddau i ni yn y Gorllewin ein hunanoldeb a'n hannoethineb

Fel stiwardiaid dy gynhaeaf di.

Maddau inni mewn byd o ddigonedd

Fod llawer yn llwgu.

Maddau inni mewn byd cyfoethog

Fod llawer yn dlawd.

Wrth inni ddiolch, heddiw, gwna ein diolch yn rhannu,

Er mwyn i eraill fwynhau dy gariad a'th haelioni di.

Cofiw'n yn arbennig y rhai hynny sy'n dioddef trychinebau,

fel y rhai hynny yn India a Phacistan

sydd mewn angen mawr o ganlyniad i'r daeargryn.

Arwain ni i drugarhau ac i garu.

Clyw ein gweddi yn enw Iesu Grist.

Amen

Emyn 3

Martyn Geraint - CD "Diwrnod i'r Brenin" trac 3 Diolch Arglwydd, Diolch.

3. Duw'r Cadw

Wrth orffen ei anerchiad, y mae Paul yn cyrraedd uchafbwynt. Mae'n dweud nad yw gwybod am Dduw'r Creawdwr a Duw'r Cynhaliwr yn ddigon. Rhaid dod i'w adnabod fel Duw y Cadw, neu'r Duw sy'n ein hachub. Er mwyn iddo ein hachub rhaid edifarhau am ein pechodau a chredu yn ei Fab Iesu Grist. Meddai Paul, "...bellach mae'n galw ar bobl ym mhobman i droi ato. Oherwydd mae wedi dewis diwrnod pan fydd y byd i gyd yn cael ei farnu. Bydd y farn yna'n gwbl deg. Mae wedi dewis dyn i wneud y barnu, ac mae wedi dangos yn glir ei fod yn mynd i wneud hyn drwy ddod â'r dyn hwnnw yn ôl yn fyw ar ôl iddo farw.."

Y mae Duw wedi ymyrryd yn hanes y byd trwy ddanfon ei Fab, i egluro ei feddwl a'i fwriad ac i agor y ffordd i'n cadw. Wrth edrych ar y cread gallwn weld gwaith y

Crëwr, ond ni allwn ddod i'w adnabod. Ond yn yr Iesu deun wyneb yn wyneb â Duw.

Flynyddoedd yn ôl cofiaf ymweld â chadeirlan enwog Caer Efrog. Clamp o adeilad mawr yng nghanol y ddinas. Ynddi gwelais y cofebion i enwogion, yr allor, y ffenestri lliw ac edmygu'r bensaernïaeth. Ond wrth i ymwelwyr adael yr Eglwys yr oeddent yn eich annog i edrych ar y nenfwd uwch eich pennau oedd wedi cael ei adnewyddu ar ôl cael ei ddifrodi gan dân. Edrychais i fyny gan weld arfbeisiau, gwaith plaster cywrain, anifeiliaid lliwgar ac addurniadau wedi eu goreuro. Ar ôl ychydig roedd gen i gric yn fy ngwddw. Cyn ymadael gwelais griw o rhyw 12 o bobl yn sefyll o gwmpas bwrdd ac yn edrych i lawr. Es draw i weld beth oeddent yn ei wneud. Cwrdd gweddi efallai? Rhan o'r arddangosfa? Ac yna sylweddolais nad bwrdd oedd yno ond drych mawr. Er mwyn gweld gogoniant y nenfwd, yr unig beth oedd angen ei wneud oedd edrych yn y drych.

Yn yr un modd wrth edrych ar Iesu, dysgu ganddo a chredu ynddo, gwelwn yn union sut un yw Duw. Gwelwn ei natur, ei bersonoliaeth, ei faddeuant a'i ras. Sylweddolwn fod Duw yn ein caru cymaint fel ei fod wedi caniatáu i Iesu farw ar y groes dros ein pechodau a dioddef cosb yn ein lle. A thrwy inni edifarhau a chredu ynddo, derbyniwn faddeuant a deun i berthynas â Duw. "Pen Calfaria, gydia'r ddaear wrth y nef." A dyma destun diolch a bery yn dragywydd, sef bod Duw yn ein caru ni, ac wedi trefnu ffordd i'n cadw. Felly llawenhawn yn ein Duw, gyda diolch yn ein calon – Duw'r Creawdwr, Duw'r Cynhaliwr a Duw y Cadw.

Gweddiwn:

Molwn di, O! Arglwydd ein Gwaredwr,
Am anfon dy Fab, Iesu Grist, i'n byd.
Am iddo ddod fel un ohonom er mwyn inni ddod yn debycach iddo,
Am iddo farw drosom ac atgyfodi
er mwyn i ninnau gael bywyd yn ei enw:
Diolchwn i ti!

Cynorthwya ni i fyw yn ei gariad
i gyhoeddi ei faddeuant
Ac i weithio drosto drwy gydol ein hes.
Gofynnwn hyn yn ei enw ef. Amen

Barddoniaeth: "Moli'r Creawdwr"

allan o "Cerddi Mawl" W. Rhys Nicholas – tudalen 86

Emyn 4

Tyrd atom ni o Grëwr pob goleuni. Caneuon Ffydd rhif 222

Y Fendith

Boed i chi brofi'r heddwch perffaith mae Duw'n ei roi – y daioni sydd y tu hwnt i bob dychymyg! – a bydd yn gwarchod eich calonnau a'ch meddyliau wrth i chi ddilyn y Meseia Iesu. Amen.

Alun Tudur